

# RYDYM YN RECRIWTHIO

## UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





## Chef De Partie - Bwyty a Bar 1891

### Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog : £18,887 i £19,650 y flwyddyn

Oriau : 37 awr yr wythnos ar gyfartaledd dros y flwyddyn

Contract : Parhaol

(Mae oriau blynyddol yn golygu y bydd gennych chi rota o weithio bob wythnos yn gyffredinol, ond mae gennym ni amseroedd prysurach a thawelach, felly efallai y byddwch chi'n gweithio ychydig yn llai am rywfaint o'r flwyddyn, ac ychydig yn fwy ar adegau eraill, ond fe fydd balans o 37 yr wythnos).

### Am y Swydd

Mae Bwyty a Bar 1891 yn brolio moethusrwydd hamddenol, gyda chyfuniad perffaith o fwyd bendigedig, coctels achlysurol a golygfeydd godidog. Gyda bwyty ar ei newydd wedd, Teras 1891 a'r teras VIP newydd penigamp, mae 1891 yn cynnig 3 phrofiad bwyta unigryw mewn un lleoliad.

Yn y rôl hon, byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Cogyddion i gynhyrchu prydau o ansawdd uchel, sydd yn edrych yn fendigedig ar blatiau i'n cwsmeriaid ym Mwyty a Bar 1891, er mwyn darparu profiad cwsmer rhagorol.

Rydym yn defnyddio cynhwysion ffres o ansawdd uchel, a'r cynnyrch fwyaf lleol posib, felly gallwch fod yn hyderus y bydd gennych bopeth sydd ei angen arnoch i greu'r prydau gorau.

Byddwch hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth hylendid bwyd ac iechyd a diogelwch ym mhob maes. Er na fyddwch chi'n gyfrifol am y fwydlen, byddem wrth ein bodd yn clywed eich syniadau ar sut i'w gwella.



## **Chef De Partie - Bwyty a Bar 1891**

### **Amdanoch Chi**

Byddwch yn mwynhau bwyd, gyda'r gallu i baratoi a choginio amrywiaeth o brydau blasus gan ddefnyddio cynhwysion ffres. Mae ein ceginau yn rhedeg fel clocwaith felly bydd angen i chi fod yn chwaraewr tîm gwych.

Mae ein cwsmeriaid wedi dod i ddisgwyl prydau o ansawdd uchel, wedi'u gweini â steil a chyflymder, felly rydym yn chwilio am rywun a all cadw'n cŵl wrth weithio'n gyflym.

Yn ddelfrydol bydd gennych Hylendid Bwyd lefel 2, ond rydym wrth ein bodd yn buddsoddi yn ein staff felly byddwn yn hapus i'ch cymhwyso yn hyn, yn ogystal â darparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu a thyfu eich gyrfa.

Rydym yn cynnal rhaglen o ail-fuddsoddi parhaus yn ein safleoedd, felly rydym yn chwilio am rywun sy'n croesawu arloesedd a gwelliant, ac sy'n hyblyg i ddarparu cymorth mewn safleoedd eraill pan fo angen.

Os ydych chi'n hoff o dîm, yn hoff iawn o fwyd, yn edrych am gam i fyny yn eich gyrfa, ac yn dymuno gweithio mewn Cwmni hynod lwyddiannus, cyflym, yna gallai hwn fod yn ffit perffaith i chi.



## Chef De Partie - Bwyty a Bar 1891

### Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae Hamdden Sir Ddinbych wedi datblygu portffolio sy'n arwain y sector o gyfleusterau iechyd a ffitrwydd, a mannau gwerthu bwyd a diod. Gyda 7 bwyty, bar a chaffi rhagorol ar draws Sir Ddinbych, rydym yn cymharu â'r gorau oll o'r sector preifat, tra'n darparu cydbwysedd bywyd-gwaith heb ei ail i'n staff.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydym yn un tîm, pob un yn gweithio gyda'n gilydd tuag at nod cyffredin ond yn gwerthfawrogi unigolrwydd pob unigolyn. Rydyn ni'n ymddiried, yn gofalu ac yn parchu ein gilydd, oherwydd rydyn ni'n credu bod hynny'n ein gwneud ni'n gryfach. Gyda'n gilydd rydym i gyd yn cyfrannu at wneud Hamdden Sir Ddinbych yn llwyddiannus.

- Byddwn yn sefyll yn ôl ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom bob amser i wneud yr hyn sy'n iawn fel eu cyflogwr, a'u gwneud yn falch.
- Ni fyddwn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn dod yn gryfach ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid.



## Chef De Partie - Bwyty a Bar 1891

### Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr AHamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 25 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiâu teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Location: 1891 Restaurant & Bar, Rhyl

Closing date: 5 Mai 2022

Apply via: email your CV to [Daf.Howatson@denbighshireleisure.co.uk](mailto:Daf.Howatson@denbighshireleisure.co.uk)

